Papur 4 – Llythyr at Lywodraeth Cymru
Paper 4 – Letter to Welsh Government

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

26 Gorffennaf 2019

Hawliau pleidleisio i garcharorion

Annwyl Julie

Diolch am eich ymateb i'n hadroddiad ar hawliau pleidleisio i garcharorion. Rydym hefyd wedi cael ymateb gan y Llywydd ar ran Comisiwn y Cynulliad. Rwyf wedi amgáu copi.

Byddwch yn nodi bod y Llywydd yn dweud mai barn Comisiwn y Cynulliad yw mai "Gweinidogion Cymru sydd â'r penderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â hawliau pleidleisio i garcharorion a phryd y dylid gwneud hynny."

Dyma ofyn bellach am eglurhad ynghylch sut yr ymdrinnir â'r materion sy'n ymwneud â hawliau pleidleisio i garcharorion ac etholfraint y Cynulliad, a phwy fydd yn gyfrifol am y mater hwn. Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 18 Medi, fel y gellir ei ystyried yn y ddadl yn y Cynulliad ar 25 Medi.

Rwyf hefyd yn ysgrifennu at y Llywydd ar y mater hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

John

John Griffiths

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

Wedi'i amgáu: Gohebiaeth gan y Llywydd

CC: Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol